

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 21

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-JM - 0436-19

Lynne Neagle AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Awst 2019

Annwyl Lynne,

Yn dilyn taith y Ddeddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 drwy'r Cynulliad yn gynharach eleni a'r rôl bwysig a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth graffu ar y Bil, dyma ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor er mwyn rhoi gwybod i chi am fy mhenderfyniad diweddar mewn perthynas â Datrysiaid Digidol Cynnig Gofal Plant Cymru.

Defnyddio Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Yn unol â chytundeb Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd a'r cyn Weinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a CThEM wedi bod yn edrych ar opsiynau i integreiddio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru (y Cynnig) yn rhan o'r Gwasanaethau Gofal Plant presennol ac i CThEM gynnal archwiliadau ynghylch cymhwysedd rhieni ar ran Llywodraeth Cymru.

Ers mis Ionawr, mae Llywodraeth Cymru a swyddogion Cyllid a Thollau ei Mawrhydi wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyflenwyr i edrych ar yr opsiynau o integreiddio'r Cynnig yn rhan o'r Gwasanaethau Gofal Plant presennol a'u costio. Ym mis Mai derbyniodd swyddogion ganlyniadau manwl y gwaith darganfod a wnaed. O ganlyniad, mae nifer o broblemau wedi dod i'r golwg sydd wedi ein harwain i ystyried ai dyma'r amser iawn i ni fwrw ymlaen ymhellach i integreiddio ein Cynnig yn rhan o'r Gwasanaeth Gofal Plant presennol. Yn ogystal â rhai problemau gyda'r model presennol o ddarparu o dan y Gwasanaethau Gofal Plant, gwelwyd hefyd gymhlethdodau mewn perthynas â chydymffurfiaeth unrhyw system integredig â safonau'r Gymraeg.

Yn ei hanfod, fodd bynnag, golyga ymrwymiad y Prif Weinidog i gynnal adolygiad canol tymor o'r Cynnig Gofal Plant, y gallai fod yna newidiadau sylweddol yn y dyfodol i'r meini prawf o ran pwy fyddai'n gymwys i dderbyn y Cynnig. Bydd yr adolygiad o'r Cynnig yn ystyried pa mor ddilys yw ehangu'r meini prawf i gynnwys rhieni sy'n derbyn hyfforddiant ac addysg a rhieni sydd ar fin dychwelyd i'r gwaith, gyda'r canfyddiadau lefel uchel i'w disgwyl ddechrau 2020.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wedi pwyso a mesur, rwyf felly wedi dod i'r casgliad y dylem atal unrhyw waith pellach rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM ar y Cynnig Gofal Plant am y tro. Rwy'n derbyn bod y penderfyniad yn un mawr o ran ei arwyddocâd ac roeddwn yn awyddus i roi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd, er ein bod yng nghanol cyfnod y Toriad.

Deddfwriaeth

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch sicrhau nad ofer fu'r gwaith ar y ddeddfwriaeth a'n gobaiht yw y gallwn barhau i ddefnyddio'r darpariaethau mewn perthynas â rhannu data yn y dyfodol. Gallai Deddf Cyllid Gofal Plant (Cymru) 2019 wneud cyfraniad sylweddol o hyd i ddatrasiad digidol cenedlaethol gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth at ddibenion cael mynediad i ddata a gwybodaeth amser real sydd ym meddiant CThEM, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref sy'n hanfodol i wirio cymhwysedd (hynny yw gwybodaeth yn ymwneud ag enillion rhieni, eu hawl i fudd-daliadau a'u statws mewnfudo). Byddai angen ailedrych ar y rheoliadau drafft presennol a byddai angen cynnal trafodaethau pellach a gwahanol gyda swyddogion cyfatebol yn adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig petaem yn penderfynu mynd ar hyd y trywydd hwn.

Y costau hyd yma


Er fy mod i wedi penderfynu atal y gwaith gyda CThEM yn hytrach na dwyn y berthynas i ben yn gyfan gwbl, mae'n debygol y bydd oedi hir yn golygu y bydd rhywfaint o'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma yn ddi-fudd. Amcangyfrifir mai £1 filiwn yw cyfanswm y gost datblygu a darganfod gyda CThEM a'u contractwyr hyd yma. Heb y gwaith datblygu hwnnw, ni fyddem mewn sefyllfa i wneud penderfyniad cadarn a chytbwys ar y ffordd orau ymlaen. Aeth Awdurdod Refeniw Cymru drwy broses debyg wrth ddatblygu eu systemau a dod i'r un casgliad i beidio â pharhau gyda CThEM. Rhaid ystyried hefyd yr amser a dreuliyd gan staff Llywodraeth Cymru a'i contractwyr ei hun a'r gost gysylltiedig, er y bydd llawer o'r gwaith hwnnw yn cael ei ddefnyddio'n rhan o unrhyw brosesau a systemau gwahanol i'w datblygu yn y dyfodol.

Y camau nesaf

Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion barhau i weithio ar Achos Busnes Amlinellol dros yr haf gan ystyried opsiynau eraill o gyflwyno'r cynllun. Fy mwriad yw dod i benderfyniad ynghylch y ffordd ymlaen a ffefrir ym mis Medi a byddaf yn cyhoeddi'r manylion yn y Datganiad Llafar y byddaf yn ei wneud yn hwyrach y mis hwnnw. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos â'r awdurdodau lleol ac maent yn barod i barhau â'r trefniadau presennol tra bo'r opsiynau digidol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Deallaf y bydd y penderfyniad hwn o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor a byddwn yn croesawu cael y cyfle i esbonio'r sail resymegol yn fanylach yn yr hydref.

Yn gywir



Julie Morgan AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services